OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1158

# Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2005

## RHAN 3

Trydydd Gwledydd

**Y weithdrefn fewnforio**

**18.**—(1) Rhaid i berson beidio â mewnforio unrhyw anifail oni bai ei fod wedi hysbysu o'i fwriad i wneud hynny yn unol ag Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 282/2004.

(2) Yn syth ar ôl ei fewnforio, rhaid i'r mewnforiwr neu ei asiant fynd â'r anifail, o dan oruchwyliaeth yr awdurdod gorfodi, yn uniongyrchol i'r man archwilio ar y safle arolygu ar y ffin neu, pan fo'r offerynnau yn Atodlen 7 neu'r amodau ynghylch iechyd anifeiliaid sy'n gymwys i fewnforion yn gwneud hynny'n ofynnol, i ganolfan gwarantîn fel y darperir ar ei chyfer yn ail baragraff indent yr is-baragraff cyntaf o Erthygl 10(1) o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/496/EEC.

(3) Rhaid i berson beidio â symud unrhyw anifail o ganolfan gwarantîn na safle arolygu ar y ffin oni bai bod y ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin wedi'i llenwi yn unol ag Erthygl 3(1) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 282/2004 a bod y ddogfen honno'n dangos bod yr holl wiriadau milfeddygol angenrheidiol wedi'u gwneud er boddhad y milfeddyg swyddogol.

(4) Rhaid i berson beidio â symud unrhyw anifail o fan lle mae'n cael ei storio dros dro o dan drefniadau'r Tollau —

(a) oni fydd y ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin wedi'i dangos yn unol ag Erthygl 3(3) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 282/2004 i un o swyddogion Tollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi a bod y symudiad wedi'i awdurdodi gan y swyddog hwnnw;

(b) i unrhyw fan ac eithrio'r gyrchfan a bennir yn y ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin, onid yw wedi'i gwneud yn ofynnol iddo symud yr anifail i fan arall drwy gyfrwng hysbysiad a gyflwynwyd iddo gan arolygydd.

(5) Rhaid i'r person sydd â gofal dros anifail a fewnforiwyd o drydedd wlad sicrhau ei fod yn cael ei gludo i'w gyrchfan yn ddi-oed a bod gwreiddiol y ddogfen fynediad filfeddygol gyffredin yn mynd gydag ef i'w gyrchfan yn unol ag Erthygl 3(4) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 282/2004.

(6) Pan fo gwiriad yn golygu cymryd sampl i'w brofi ac nad yw canlyniad y prawf ar gael ar unwaith, caiff y milfeddyg swyddogol, drwy hysbysiad a gyflwynir i'r perchennog neu'r person y mae'n ymddangos iddo ei fod â gofal dros yr anifail, ryddhau'r anifail hwnnw o'r safle arolygu ar y ffin, a'i gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gadw'r anifail yn unol ag unrhyw amodau a bennir yn yr hysbysiad nes bod canlyniadau'r prawf ar gael; ac os yw'r prawf yn dangos nad yw'r anifail yn cydymffurfio â darpariaethau Erthygl 5 o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/496/EEC, yna bydd darpariaethau rheoliad 21 yn gymwys yn yr un modd ag y maent yn gymwys ar safle arolygu ar y ffin.

(7) Os na chydymffurfir â hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (4) neu (6) caiff arolygydd milfeddygol atafaelu unrhyw anifail y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef a threfnu y cydymffurfir â gofynion yr hysbysiad.